# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 (p2)

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 2 - Prif Weinidog Cymru a Chabinet y Cynulliad

#### 1. Cefndir

Ar hyn o bryd mae Rheol Sefydlog 2 yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer Ethol Prif Weinidog Cymru, ymddiswyddiad Prif Weinidog Cymru, penodi Gweinidogion a darpariaethau'n ymwneud â'r Cabinet a Chod y Gweinidogion. Mae cymalau 46 a 47 y Mesur yn nodi y bydd Prif Weinidog Cymru yn cael ei benodi gan Ei Mawrhydi yn dilyn enwebiad gan y Cynulliad. Bydd y Llywydd yn argymell penodiad i'w Mawrhydi.

#### 2. Y Rheol Sefydlog Newydd

Yn yr Atodiad, amlinellir rhai o'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Rheol Sefydlog bresennol i ateb gofynion y Mesur, a cheir cwestiynau lle y bo opsiynau ar gael. Pan fydd y Pwyllgor wedi cytuno ar gynnwys y Rheol Sefydlog newydd, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog newydd i'r Pwyllgor gytuno arni.

#### 3. Darpariaethau'r Mesur

Mae'r darpariaethau ar gyfer dewis Prif Weinidog Cymru yng nghymal 47 y Mesur. Mae'r cymal yn nodi:

Bod yn rhaid i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog Cymru cyn diwedd y cyfnod perthnasol yn dilyn nifer o ddigwyddiadau. [cymal 47(1)]

Y digwyddiadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog Cymru [cymal 47(2)], sef

· Etholiad Cyffredinol,

· Pleidlais o ddiffyg hyder yng Ngweinidogion Cymru gan y Cynulliad,

· Prif Weinidog Cymru yn cyflwyno'i ymddiswyddiad i'w Mawrhydi,

· Marwolaeth prif Weinidog Cymru, neu os bydd Prif Weinidog Cymru mewn sefyllfa lle na fydd yn gallu gweithredu yn barhaol, nac ymddiswyddo; ac

· Os na fydd Prif Weinidog Cymru bellach yn Aelod Cynulliad am unrhyw reswm arall heblaw os bydd y Cynulliad yn cael ei ddiddymu.

Y cyfnod perthnasol. [cymal 47(3)]

Bod yn rhaid i'r Llywydd argymell penodiad y person a enwebwyd gan y Cynulliad i'w Mawrhydi. [cymal 47(4)]

Nid yw'r Mesur yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y darpariaethau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn Rheoliadau Sefydlog mewn perthynas â dewis Prif Weinidog Cymru.

## 4. Pwyntiau i'w nodi

4.1 Cyfnod y Swydd

Yn yr un modd â swydd y Llywydd, mae Atodlen 11 para 20(2) yn nodi y bydd y Prif Weinidog (a Gweinidogion Cymru) oedd yn ymgymryd â'r swydd cyn dechrau'r cyfnod cychwynnol (h.y. diwrnod yr etholiadau fis Mai 2007) yn parhau yn y swydd hyd nes y caiff Prif Weinidog Cymru newydd ei ethol (o fewn 28 diwrnod wedi'r etholiad) ar yr amod bod y person hwnnw (neu'r personau hynny) yn ymgeisydd yn yr etholiad, a'i fod yn cael ei ethol fel Aelod Cynulliad.

Os bydd swydd Prif Weinidog Cymru yn wag, neu os bydd Prif Weinidog Cymru yn methu â gweithredu, neu os yw'n peidio â bod yn Aelod Cynulliad yn ystod y cyfnod cychwynnol (h.y. 2007), mae Atodlen 11 para 21 (b) yn nodi y bydd swyddogaethau'r perdon hwnnw (Prif Weinidog Cymru) yn cael eu cyflawni gan berson a benodwyd gan Aelodau eraill y Cynulliad (h.y. Gweinidogion Cymru sy'n dal yn Aelodau Cynulliad).

Ar gyfer swyddi gwag dilynol, ar ôl 2007 mae'r mesur yn nodi y bydd y Llywydd yn enwebu person arall i ymgymryd â swyddogaethau Prif Weinidog Cymru os na fydd ef neu hi yn gallu gweithredu, neu os na chaiff y person hwnnw ei ethol. [cymalau 46 (5)-(8)]

## 5. Gweithredu

Cytuno ar yr egwyddorion i'w cynnwys yn y Rheol Sefydlog hon fel y'u hamlinellir yn yr atodiad. Yna, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog ddiwygiedig i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Uned Weithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006